Agenda 6 **14 Mai 2010** **WNC 17.10**

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU 2009 - 10

Pwrpas

1. Cyflwyno i'r Pwyllgor Cenedlaethol ddrafft Adroddiad Blynyddol 2009 – 10 (heb y cyfrifon) i'w ystyried.

Cefndir

2. Mae gan y Pwyllgor Cenedlaethol gyfrifoldeb i gadarnhau'r Adroddiad Blynyddol (heb y cyfrifon). Ni chyflwynir yr adran gyfrifon oherwydd gallai hynny olygu 40 tudalen yn ychwanegol. Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon llawn ar gyfer 2009 - 10 i Swyddfa Archwilio Cymru ar 18 Mehefin er mwyn cymeradwyo'r cyfrifon, a llofnodir y cyfan gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 30 Gorffennaf.

3. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cydnabod nad yw'r Adroddiad Blynyddol yn arf cyfathrebu allweddol, a'i bod yn well i ni gyfeirio ein gwaith trwy ein cyhoeddiadau mwy blaengar megis y Cynllun Corfforaethol.

4. Mae yna swyddogaeth bwysig o ran llywodraethu a chraffu i'w chyflawni o hyd trwy'r ddogfen gorfforaethol hon a'r cyfrifon. Bydd *hanner cyntaf* yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn dal i fod yn ddogfen gryno sy'n amlinellu ein pwrpas a threfniadau llywodraethu, a chyn lleied â phosibl o ddata.

Y Camau Nesaf

5. Gan weithio'n agos â'r Tîm Cyllid, mae'r gwaith a llinell amser a ganlyn yn berthnasol:
   - cynnwys y Rhagair a'r adrannau Mesurau Perfformiad, unwaith y cânt eu cadarnhau;
   - cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon terfynol i Swyddfa Archwilio Cymru ar 18 Mehefin a chael llofnod y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 30 Gorffennaf;
   - cyfieithu'r adroddiad wedi'i gymeradwyo a chwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
   - cyhoeddi'r cyfan ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru ym mis Awst.

Goblygiadau Ariannol

6. Mae cynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn waith craidd i'r timau Cyllid ac Ysgrifenyddiaeth, ac felly mae'n cael ei ariannu'n llawn.

Risgiau

7.

Elfen Risg	Math o Risg: Economaidd Enw Da Amg. a Chymdeithasol	Sgôr Effaith / Tebygolrwydd	Sgôr Risg	Rheolaethau
Methu â chynhyrchu cyfrifon fel rhan o'r broses adrodd orfodol erbyn y terfynau amser	Economaidd Enw Da	4 / 2	8	Rheoli'r prosiect yn effeithiol â llinellau amser clir
Sgôr Risg 0 – 5 Dibwys / 6 – 10 Isel / 11 – 20 Canolig / 21 – 25 Uchel				

Cyfathrebu

8. Bydd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2009 - 10 ar gael i randdeiliaid trwy wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Argymhelliad

9. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y drafft sydd ynghlwm ac awgrymu unrhyw newidiadau allweddol i benawdau a chynnwys y brif adran.

James Laing
Ysgrifenyddiaeth
3 Mai 2010